# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 15 Tachwedd 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(29)

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog**
Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Tynnwyd cwestiwn 13 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

**14.23**
**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**14.31**
**3. Dadl ar y Gyllideb Ddrafft**

**NDM4847 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.12:

Yn nodi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012-2013 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty ar 4 Hydref 2011.

**Yn unol â rheol Sefydlog 11.15 (i), penderfynodd y Llywodraeth y byddai unrhyw bleidlais angenrheidiol yn digwydd ar ôl y ddadl.**

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**William Graham (Dwyrain De Cymru)**

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

**Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn gwrthod cefnogi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Hydref 2011 gan y Gweinidog Cyllid, ar y sail nad yw'n mynd i'r afael yn ddigonol â'r canlynol:

a) y pwysau ariannol y mae’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn ei wynebu;

b) yr argyfwng economaidd sy’n gwaethygu;

c) y pwysau ariannol y mae ysgolion yn ei wynebu er mwyn diwallu anghenion plant difreintiedig; a

d) y pwysau ariannol ar brosiectau cyfalaf.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 0 | 29 | 58 |

Fel sy’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM4847 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.12:

Yn nodi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012-2013 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty ar 4 Hydref 2011.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 0 | 29 | 58 |

Fel sy’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.

**16.29**

**4. Dadl ar y Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy**

**NDM4848 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod mai'r egwyddorion a'r blaenoriaethau a bennwyd yn Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu yw'r sylfaen o hyd ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

2. Yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu, gan gynnwys y trefniadau arwain newydd a roddwyd ar waith.

**Yn unol â rheol Sefydlog 11.15 (i), penderfynodd y Llywodraeth y byddai unrhyw bleidlais angenrheidiol yn digwydd ar ôl y ddadl.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn.**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu ‘mai'r egwyddorion a'r blaenoriaethau a bennwyd yn Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu yw'r sylfaen o hyd’ a rhoi yn ei le ‘bod gan yr egwyddorion a'r blaenoriaethau a bennwyd yn Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu y potensial’.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 27 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn nodi pwysigrwydd arweinyddiaeth effeithiol ac atebol a bod hyn yn hollbwysig er mwyn gwella Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 35 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn gresynu wrth gynigion Llywodraeth Cymru i dorri 5.9 y cant oddi ar Gyllideb Refeniw Gwasanaethau Cymdeithasol mewn termau real rhwng 2011/12 a 2012/13.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 20 | 5 | 27 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu’r polisi i ddatblygu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol newydd ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi’r Fframwaith hwn fel blaenoriaeth ar gyfer gweithredu.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi y bydd newidiadau demograffig yn y dyfodol yn rhoi rhagor o bwysau ar wasanaethau cymdeithasol, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i feithrin cysylltiadau gweithio agosach rhwng adrannau gwasanaethau cymdeithasol a byrddau iechyd lleol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynyddu'r defnydd a wneir o gyllidebau personol ar gyfer pobl sy'n derbyn gofal er mwyn iddynt dderbyn rhaglen ofal sy'n addas i angen personol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 35 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 6.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4848 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod mai'r egwyddorion a'r blaenoriaethau a bennwyd yn Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu yw'r sylfaen o hyd ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

2. Yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu, gan gynnwys y trefniadau arwain newydd a roddwyd ar waith.

3. Yn croesawu'r polisi i ddatblygu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol newydd ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi'r Fframwaith hwn fel blaenoriaeth ar gyfer gweithredu.

4. Yn nodi y bydd newidiadau demograffig yn y dyfodol yn rhoi rhagor o bwysau ar wasanaethau cymdeithasol, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i feithrin cysylltiadau gweithio agosach rhwng adrannau gwasanaethau cymdeithasol a byrddau iechyd lleol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

Daeth y cyfarfod i ben am 17.32.

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30 Dydd Mercher, 16 Tachwedd 2011**